Ysgol Treganna

ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk
@YsgolTreganna

# Prosbectws 24–25






Pennaeth:
**Mrs Catrin Evans**

**Heol Sanatorium**
**Treganna**
**Caerdydd**
**CF11 8DG**

Cadeirydd y Llywodraethwyr:
**Mrs Manon George**


Math o ysgol:
**Ysgol Gynradd**

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Datganiad Gweledigaeth | 4 |
| Ein gwerthoedd craidd: Tri Treganna | 5 |
| Gwybodaeth | 6 |
| Strwythur yr ysgol | 7 |
| Corff Llywodraethu Ysgol Treganna | 8 |
| Staff Ysgol Treganna 24/25 | 10 |
| Gweledigaeth Cwricwlwm | 13 |
| Ein Cwricwlwm | 14 |
| Cwricwlwm i Gymru | 15 |
| Asesu a Chynnydd | 17 |
| Derbyniadau | 17 |
| Ethos, ymddygiad a disgyblaeth | 18 |
| Oriau'r ysgol | 19 |
| Presenoldeb | 20 |
| Iechyd, Lles a Diogelwch | 20 |
| Cinio Ysgol | 22 |
| Y Gymraeg | 23 |
| Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 24 |
| Cyd-addoli a gwasanaethau | 24 |
| Tai Bach | 24 |
| Anghenion Dysgu Ychwanegol | 25 |
| Gwersi Offerynnau Cerdd | 26 |
| Trosglwyddo i Addysg Uwchradd | 26 |
| Cyfle Cyfartal | 26 |
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 27 |
| Rhifau ffôn argyfwng | 27 |
| Addysg Gorfforol a Chwaraeon | 29 |
| Gweithgareddau allgyrsiol | 29 |
| Gwisg Ysgol | 30 |
| Diogelwch | 30 |
| Trefn Diogelwch Plant | 32 |
| Cyswllt Cartref ac Ysgol | 34 |
| Polisi Codi Tâl | 35 |
| Ymweliadau | 35 |
| Ymweliadau Preswyl | 36 |
| Clwb Brecwast a chlwb ar ôl ysgol | 36 |
| Cwynion | 37 |

## Datganiad Gweledigaeth

Mae seiliau ein gweledigaeth ar gyfer Ysgol Treganna yn gorwedd yn yr "ysgol fechan yn y ddinas fawr" lle gychwynnodd ein taith nol yn 1987. Bellach rydym wedi tyfu i fod yn ysgol o 700 o ddisgyblion wedi rhannu yn dair cymuned dan arweiniad ein dirprwyon cynorthwyol. Mae 22 o ddosbarthiadau yn Nhreganna wedi'u trefnu i hyrwyddo'r profiad dysgu gorau posibl i'ch plentyn.

Ein gweledigaeth fel ysgol yw darparu'r safonau addysg a chefnogaeth uchaf posibl i'n holl ddisgyblion lle mae gan bob disgybl ac aelod o'r tîm gyfleoedd niferus i gyflawni a rhagori ar ei botensial lle nad oes nenfwd.






## Ein gwerthoedd craidd: Tri Treganna

**Teulu**
Mae ein cymunedau dysgu yn fodd ymarferol o sicrhau teimlad o berthyn, gofal a natur deuluol gyson ac mae ffyniant disgyblion a'u lles wrth wraidd popeth a wnawn yma yn Nhreganna. Cydweithiwn gyda theulu eang ein cymuned i gynnig profiadau ysbrydoledig i'n disgyblion gan hyrwyddo cwricwlwm byw, cyfredol ac uchelgeisiol sy'n tanio dychymyg ein disgyblion ac yn meithrin eu chwilfrydedd.

**Cymreictod**
Mae Cymreictod, yr iaith, a'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o'n gweledigaeth. Ond credwn yn gryf mae ein dyletswydd yw dysgu mwy nag iaith i'n disgyblion. Mae'n bwysig ein bod yn trochi pob un disgybl yn niwylliant ein gwlad gan sicrhau eu bod yn cael amrediad o brofiadau fydd yn eu galluogi i fod yn Gymry sy'n falch o'u gwlad, eu traddodiadau a'u hiaith.

**Uchelgeisiol**
Yn ysgol Treganna mae ein diwylliant yn un o bosibilrwydd ac nid ydym yn rhoi ffiniau ar yr hyn sy'n bosibl. Rydym yn dathlu ac yn adeiladu ar gryfderau pob unigolyn, ac yn darparu cyfleodd i bawb i gyrraedd a goresgyn eu potensial. Rydym yn ymfalchio yng nghreadigrwydd a chwilfrydedd ein disgyblion ac mae disgwyliadau uchel yn sylfaen i'r oll i ni'n gwneud.



### Gwybodaeth

Mae Ysgol Gymraeg Treganna yn ysgol gyfrwng Gymraeg sydd wedi ei lleoli yn ardal Treganna, Caerdydd. Ein nod fel ysgol yw cyflwyno cwricwlwm arloesol yr 21ain ganrif a fydd yn ysbrydoli ein disgyblion ac yn eu helpu i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, mentrus, gwybodus a hyderus. Mae gennym dîm ymroddedig, cyfeillgar sy'n gweithio'n galed. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldebau am feysydd o'r cwricwlwm ac fel ysgol rydym yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd uchel i'n staff. Yn ogystal â'r staff addysgu mae gennym nifer o gynorthwywyr sy'n darparu cefnogaeth werthfawr. Mae gennym ddwy weinyddwraig ysgol amser llawn.

Mae ein gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys pêl-rwyd, hoci, rygbi, pêl-droed, criced, nofio, rownderi, côr, clwb perfformio, clwb hwyl a sbri, clwb ffilm, clwb garddio, offerynnau cerdd, dawnsio gwerin, clwb Minecraft a'r Urdd. Mae gennym Gymdeithas Rieni ac Athrawon gweithgar sy'n darparu adnoddau ychwanegol gwerthfawr i'n disgyblion a'n staff.

Mae cymuned yr ysgol yn rhan annatod ac unigryw o ethos Ysgol Treganna a chredwn yn gryf mai'r ffordd orau o ddarparu addysg yw trwy bartneriaeth lwyddiannus rhwng y cartref, yr ysgol a'r gymuned leol. Gyda chymorth rhieni, rydym am feithrin cariad at ddysgu ac arfogi pob plentyn â'r cyfarpar sydd ei angen arno i lwyddo mewn bywyd.







### Strwythur yr ysgol

Mae'r ysgol wedi ei rhannu yn dair Cymuned Dysgu, sef **Branwen**, **Manawydan** a **Pwyll** dan arweiniad ein Dirprwyon Cynorthwyol.

Mae 22 o ddosbarthiadau yn Nhreganna wedi'u trefnu i hyrwyddo'r profiad dysgu gorau posibl. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i grwpiau fod yn hyblyg er mwyn addasu i wahanol ffactorau ac anghenion disgyblion ar draws ystod eang o brofiadau cwricwlaidd a chymdeithasol. Mae'r ysgol yn gosod disgyblion o'r un oedran mewn grwpiau blwyddyn. Bydd y dosbarthiadau hyn yn aml yn cynllunio gyda'i gilydd ac yn rhannu gweithgareddau. Dyrennir y dosbarthiadau cofrestru yn ofalus ar ddechrau'r cyfnod Derbyn ac fe fydd ambell newidiad yn ystod y flwyddyn yma. Ar ôl hyn, bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau gyda'u grŵp dosbarth trwy gydol eu hoes ysgol.

#### Aelodaeth dosbarth

Mae'n annhebygol iawn y byddwn yn gallu cyd-fynd â cheisiadau unigol i newid dosbarthiadau o fewn y flwyddyn academaidd. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth â'n staff addysgu cymwys iawn, efallai y byddwn yn penderfynu symud unigolion neu grwpiau yn ôl eu hanghenion. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud ar sail lles addysgol a chymdeithasol yr unigolion. Er ein bod yn hapus i drafod y newidiadau hyn, does dim proses apêl a dylai rhieni ystyried y penderfyniadau hyn yn derfynol.

#### Aelodau teulu a gefeilliaid

Rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod aelodau o'r teulu agosaf (hyd at gefnder cyntaf) yn yr un Gymuned. Ar yr adegau prin lle na fydd hyn yn bosibl, rhoddir y dewis i'r rhieni. Mae yna gorff sylweddol o ymchwil sy'n awgrymu bod gefeilliaid yn gwneud cynnydd gwell wrth fynychu dosbarthiadau ar wahân. Rhoddir dewis terfynol i'r rhieni yn y mater hwn.



## Corff Llywodraethu Ysgol Treganna

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn effeithiol. Rhaid i Ysgol Treganna i weithredu o fewn y fframwaith a osodir gan ddeddfwriaeth a rhaid sicrhau bod polisïau'r Awdurdod Lleol (ALl) a Llywodraeth Cymru (LlC) yn cael eu dilyn. Y Pennaeth a'r Uwch Dîm Rheoli sydd yn gyfrifol am redeg yr ysgol o ddydd i ddydd tra bod y Corff Llywodraethu yn cyflawni rôl strategol. Mae'r Pennaeth, a'r Uwch Dîm Rheoli yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Corff Llywodraethol er mwyn sicrhau bod disgyblion yr ysgol yn derbyn yr addysg gorau. Mae'r Corff Llywodraethu yn cwrdd dwywaith y tymor. Mae gan y Corff Llywodraethu nifer o bwyllgorau sy'n gyfrifol am wahanol agweddau o waith yr ysgol.

### Cysylltu â'r Llywodraethwyr

Os ydych am gysylltu gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu neu lywodraethwr unigol gallwch e-bostio swyddfa'r ysgol.



## Aelodaeth y Corff Llywodraethu 2024-25

| Enw | Yn cynrychioli | Dyddiad gorffen |
|---|---|---|
| Manon George, Cadeirydd | Awdurdod Lleol | 21/05/24 |
| Carolina Avila Jones | Rhiant Lywodraethwr | 10/12/25 |
| Susan Elsmore | Awdurdod Lleol | 27/11/26 |
| Dafydd Franklin | Rhiant Lywodraethwr | 05/07/26 |
| Sharon Krause | Awdurdod Lleol | 20/09/26 |
| Menna Roberts | Cymuned | 06/07/26 |
| Paul Humphries | Rhiant Lywodraethwr | 10/12/25 |
| Simon Taylor | Rhiant Lywodraethwr | 01/11/24 |
| Gareth Rhys Evans | Rhiant Lywodraethwr | 05/07/26 |
| Lleu Williams | Cymuned | 22/12/27 |
| Stefan Rollnick | Awdurdod Lleol | 18/03/24 |
| Tom Simms Hayes | Staff heb fod yn addysgu | 23/11/27 |
| Eleri Jones | Athrawes | 19/03/27 |
| Elin James | Athrawes | 31/10/26 |
| Catrin A Evans | Pennaeth | |
| Gareth W Evans | Dirprwy Bennaeth | |

## Staff Ysgol Treganna 24/25

| | |
|---|---|
| Catrin A Evans | Pennaeth |
| Gareth W Evans | Diprwy Bennaeth |
| Mererid Lewis | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Erwain Alaw | Arweinydd Cymuned Pwyll, athrawes dosbarth Arianrhod |
| Marged Miles -Farrier | Arweinydd Cymuned Manawydan, athrawes dosbarth Taliesin |
| Emsyl Llwyd | Arweinydd Cymuned Branwen, athrawes dosbarth Elen |
| Elin James | Tîm Rheoli, athrawes Math |
| Eleri Jones | Tîm Rheoli, athrawes Ceridwen |
| Branwen Parry | Athrawes dosbarth Gronw |
| Matthew Jones | Athro dosbarth Morfydd |
| Mari Williams | Athrawes dosbarth Peredur |
| Bethan Mair Roberts | Athrawes dosbarth Gwern |
| Jess Ausi Rhiannon | Athrawes dosbarth Gronw |
| Ein Roberts-Evans | Athrawes dosbarth Gwenhwyfawr |
| Angharad Llywelyn | Athrawes dosbarth Seithennyn |
| Sara Jones | Athrawes dosbarth Bendigeidfran |
| Megan Lewis | Athrawes dosbarth Lleu |
| Liz Esau | Athrawes dosbarth Matholwch |
| Sian Morgans | Athrawes dosbarth Llyr |
| Catrin Rees | Athrawes dosbarth Blodeuwedd |
| Elan Morris | Athrawes dosbarth Culhwch |
| Beca Pennar | Athrawes dosbarth Gwydion |
| Elin Evans | Athrawes dosbarth Olwen |
| Catrin V Smith | Athrawes dosbarth Bedwyr |



| | |
|---|---|
| Sian Healan | Athrawes dosbarth Mabon |
| Julia Davage | Arweinydd Dysgu Awyr Agored |
| Isobel Williams | Athrawes CPA |
| Rhoda Henson | CALU |
| Rhiannydd Jones | Arweinydd Lles a'r gymuned |
| Mari Hughes | CALU |
| Jenna Williams | CALU |
| Josh Chapman | CALU |
| Tom Sims-Hayes | Cynorthwyydd Dysgu |
| Rhian Clarke | Cynorthwyydd Dysgu |
| Poppy Sims-Hayes | Cynorthwyydd Dysgu |
| Rhian Owen | Cynorthwyydd Dysgu |
| Carys Jones | Cynorthwyydd Dysgu |
| David Camacho | Cynorthwyydd Dysgu |
| Regan Heatley | Cynorthwyydd Dysgu |
| Ann Sneddon | Cynorthwyydd Dysgu |
| Catrin Powell | Cynorthwyydd Dysgu |
| Ingrid Morgan | Cynorthwyydd Dysgu |
| Abbie Lock | Cynorthwyydd Dysgu |
| Isabela Gibbon | Cynorthwyydd Dysgu |
| Kelly Paul | Cynorthwyydd Dysgu |
| Claire Tyler | Cynorthwyydd Dysgu |
| Cate Hughes | Cynorthwyydd Dysgu |
| Bethan Stewart | Pennaeth Gweinyddol |
| Leah Banfield | Cynorthwyydd Gweinyddol |
| Finbar Hayes | Swyddog Ystad |




## Gweledigaeth Cwricwlwm

Ein gweledigaeth fel ysgol yw darparu'r safonau addysg a chefnogaeth uchaf posibl i'n holl ddisgyblion lle mae gan bob disgybl ac aelod o'r tîm gyfleoedd niferus i gyflawni a rhagori ar ei botensial lle nad oes nenfwd.

Mae'r gymuned yn rhan annatod o'n cynefin. Cydweithiwn gyda theulu eang ein cymuned i gynnig profiadau ysbrydoledig i'n disgyblion gan hyrwyddo cwricwlwm byw, cyfredol ac uchelgeisiol sy'n tanio dychymyg ein disgyblion ac yn meithrin eu chwilfrydedd. Mae'r cyd berthynas weithredol yma yn ganolog i fywyd ysgol Treganna wrth i botensial pob disgybl gael ei feithrin yn yr ysgol ac yn y gymuned tu hwnt.

Yn sgil ein llwyddiannau ar lwyfan yr Eisteddfod mae profiadau allgyrsiol creadigol yn allweddol, ac yn datblygu hyder a mentergarwch ein disgyblion. Mae Cymreictod, yr iaith, a'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o'n gweledigaeth sy'n ein galluogi i feithrin disgyblion hyderus sy'n ymfalchïo yn eu hiaith a'u diwylliant.

Rydym yn annog arloesedd ac mae ein cwricwlwm yn galluogi ein disgyblion i wthio'r ffiniau a chydweithio ar brosiectau byw er mwyn llwyddo. Bydd pob disgybl yn cael ei herio ac mae disgwyliadau uchel yn rhan annatod o'n hysgol ble does dim nenfwd.

Yn sgil ein pwyllgorau disgyblion rydym yn annog pob disgybl i gyfrannu at fywyd ein hysgol ac i wneud penderfyniadau strategol. Cant eu hannog i wneud dewisiadau fydd yn cael effaith gadarnhaol ar eu hysgol, eu cymuned, eu gwlad a'r byd ehangach. Yn sgil ein sesiynau Dathlu Dysgu, gwerthfawrogwn natur aml ddiwylliannol ein hardal a'r brif ddinas, gan annog disgyblion parchus a gofalgar sy'n dathlu eu gwahaniaethau.

Yn Nhreganna rydym yn ymfalchïo yn ein hunaniaeth a bydd ein cwricwlwm yn dathlu ein hieithoedd, ein hanesion, ein diwylliant a'n cynefin. Ymfalchïwn yng nghreadigrwydd a chwilfrydedd ein disgyblion ac mae disgwyliadau uchel yn sylfaen i gwricwlwm ein hysgol.

## Ein Cwricwlwm

- Yn Ysgol Treganna rydym yn anelu at ddatblygu dysgwyr hyderus, uchelgeisiol, gwybodus a chreadigol. Ein prif flaenoriaethau yw galluogi ein dysgwyr i wireddu'r pedwar diben a'u paratoi ar gyfer dysgu parhaus.
- Mae canllawiau Cwricwlwm Cymru yn ddatganiad clir o'r hyn sy'n bwysig wrth ddatblygu addysg eang a chytbwys. Y pedwar diben yw'r weledigaeth a'r dyhead a rennir ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Ein nod yw gosod disgwyliadau uchel a galluogi pob dysgwr i gyfawni ei lawn botensial.
- Yn Ysgol Treganna rydym yn cynnig addysg eang a chytbwys sy'n galluogi pob dysgwr i wneud cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad a chymhwyso eu dysgu i sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd. Rydym yn cefnogi dilyniant ar hyd y continwwm dysgu ac yn sicrhau eu bod yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau.
- Rydym yn archwilio beth mae'r pedwar diben yn ei olygu i bob dysgwr a chredwn yn gryf y dylid paratoi a dylunio cwricwlwm sy'n cyfrannu at ddatblygiad pob un o'n dysgwyr wrth iddynt gymhwyso'r pedwar diben ar draws y cwricwlwm.
- Fel ysgol mae gennym ddealltwriaeth glir o pam mae pethau'n cael eu dysgu a'u gwneud. Mae dyluniad y cwricwlwm yn gofyn i ni resymu pam mae dysgu penodol yn bwysig a beth yw hanfod y dysgu hwnnw.
- Mae cwricwlwm ein hysgol yn eang a chytbwys ac yn cynnwys cyfleoedd dysgu o fewn ac ar draws pob un o'r Maes Dysgu a Phrofiad.
- Mae'n cwmpasu'r cysyniadau yn y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ac yn darparu cynnydd priodol yn unol ag egwyddorion cynnydd.
- Mae hefyd yn cyd-fynd â gofynion gorfodol o addysgu Cymraeg, Saesneg a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM). Yr elfennau gorfodol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh).
- Mae sgiliau trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol wedi'u hymwreiddio drwy'r cwricwlwm.
- Ein nod yw darparu cwricwlwm arloesol a heriol a fydd yn ysbrydoli ein disgyblion i ragori ar eu potensial.


## Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i ddatblygu i gyflawni pedwar diben allweddol. Ei nod yw annog ein disgyblion i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog
- Unigolion iach, hyderus
- Gyfranwyr mentrus, creadigol
- Ddinasyddion moesol, gwybodus

Mae gan Gwricwlwm Cymru chwe maes dysgu.

1. **Celfyddydau mynegiannol** sy'n ymgorffori celf, dawns, drama a chyfryngau digidol, a cherddoriaeth. Bydd yn annog creadigrwydd a, meddwl beirniadol ac yn cynnwys perfformiad.
2. **Dyniaethau** sy'n ymgorffori daearyddiaeth, hanes, addysg grefyddol, astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Bydd yn seiliedig ar brofiadau dynol a bydd hefyd yn ymdrin â diwylliant Cymru.
3. **Iechyd a lles**: mae hyn yn ymdrin ag agweddau corfforol, seicolegol, emosiynol a chymdeithasol bywyd, gan helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles a dysgu sut i reoli dylanwadau cymdeithasol.
4. **Gwyddoniaeth a thechnoleg** sy'n ymgorffori bioleg, cemeg, ffiseg, gwyddoniaeth gyfrifadurol, a dylunio a thechnoleg.
5. **Mathemateg a rhifedd**: yn y blynyddoedd cynnar, bydd hyn yn cynnwys dysgu trwy chwarae. Yn nes ymlaen, bydd yn cynnwys gweithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill.
6. **Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu**: bydd hyn yn cynnwys Cymraeg a Saesneg, llenyddiaeth ac ieithoedd rhyngwladol. Bydd dysgu Cymraeg yn orfodol o hyd (fel iaith ychwanegol i blant nad ydyn nhw'n defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf).




## Asesu a Chynnydd

Mae dilyniant ac asesu effeithiol yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cyflawni gweledigaeth ein hysgol.

Mae asesu a chynnydd yn rhan o bob profiad dysgu ac addysgu yn Ysgol Treganna ac yn cynnyws hunan asesu, asesu pâr, adborth athrawon ac asesiadau unigol y dysgwyr.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu yn seiliedig ar dystiolaeth i alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol. Mae hyn yn caniatau i ni lunio darlun holistaidd o gynnydd pob plentyn.

Mae'r disgyblion yn cydweithio gyda'u hathrawon i ddeall eu cynnydd ac i adnabod y cam nesaf yn eu taith ddysgu.

Rydym yn herio'r disgyblion,yn eu cefnogi ac yn myfyrio ar gynnydd dros amser er mwyn mesur cynnydd grwpiau o ddysgwyr.

Mae ein cwricwlwm ysgol wedi'i ategu gan yr egwyddorion cynnydd sy'n disgrifio'r hyn y mae'n ei olygu i ddysgwyr wneud cynnydd o fewn y 6 maes dysgu a phrofiad ac rydym yn ystyried cynnydd yn y 6 maes dysgu yn erbyn datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Mae ein trefniadau asesu yn sicrhau ymgysylltiad gweithredol rhwng dysgwyr ac athrawon ac mae'n seiliedig ar fyfyrio parhaus, beth yw'r cam nesaf a beth sydd angen gwneud er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cyflawni ei botensial.

## Derbyniadau

Rydym yn gweithredu o fewn polisi derbyn yr Awdurdod Lleol i sicrhau cyfle cyfartal i bob plentyn. Byddwn yn eich gwahodd chi a'ch plentyn am ymweliad pontio cyn iddynt ddechrau yn y Feithrin neu'r Derbyn.

Bydd pob rhiant neu warcheidwad yn cael cyfle i gwrdd â'r aelodau staff. Byddwch hefyd yn derbyn llyfryn sy'n cynnwys yr holl wybodaeth. Mae'r llyfrau yma ar wefan yr ysgol.

## Ethos, ymddygiad a disgyblaeth

Yn Ysgol Gymraeg Treganna mae disgyblaeth yn gryf ond yn deg ac mae'n bwysig sylweddoli bod yn rhaid i'r ysgol a rhieni weithio mewn partneriaeth er mwyn datrys unrhyw broblemau a allai godi – ni all y naill lwyddo heb y llall.

Ein nod yw meithrin hunanddisgyblaeth ym mhob disgybl. Mewn achosion difrifol, neu pan fydd plentyn wedi camymddwyn yn rheolaidd bydd yr ysgol yn hysbysu'r rhieni ac yn gofyn am eu cefnogaeth i ddelio â'r mater. Rhaid i bob plentyn ddeall bod gan yr ysgol a'r cartref yr un safonau a bod ein disgwyliadau o ran ymddygiad yn uchel –sef bod disgybl yn ymddwyn yn gyfrifol, yn parchu eraill ac yn aeddfed wrth ymwneud â chyd-ddisgyblion ac oedolion.





## Oriau'r ysgol

**8.10yb**
Mynediad i Glwb Brecwast

**8.40yb**
Mynediad disgyblion yn unig i'r iard dan oruchwyliaeth staff

**9.00yb**
Gwersi'n dechrau. Os byddwch yn cyrraedd ar ôl 9yb rhaid i rieni gofrestru yn y Dderbynfa

**3.20yp**
Casglu disgyblion o gorlan y dosbarth (Derbyn i Bl 2)

**3.30yp**
Casglu disgyblion o gorlan y dosbarth (Bl3 – 6)

**4.30yp**
Casglu disgyblion o'r clybiau yn y brif fynedfa

### Amserlen y dosbarth Meithrin

**8.10yb**
Mynediad i Glwb Brecwast y Feithrin

**Bore**
09.05yb - 11.35yb

**Prynhawn**
12.45yp - 3.15yp

### Cyrraedd yr Ysgol

Mae traffig yn drwm o gwmpas ein hysgol. Os fedrwch - gadewch y car yn y tŷ. Gallwch gerdded, seiclo neu beth am ddefnyddio ein bws beic. Os bydd rhaid i chi ddod â char i'r ysgol, cofiwch ufuddhau i'r cyfarwyddiadau a rheolau traffig - mae pob un ohonynt yno er mwyn diogelwch a lles eich plant.

### Trefniadau casglu

Fe fydd cyfle i chi gofrestru nifer o enwau a rhifau ffôn cyswllt yr ydych yn ymddiried ynddynt ar ddechrau'r tymor. Yn achlysurol, o bosib, fe fyddwch angen i un o'r rhain gasglu eich plentyn neu efallai iddo/iddi fynd adref gyda ffrind.

Mae newidiadau argyfwng i'r trefniadau uchod yn gwbl dderbyniol ond, er mwyn sicrhau diogelwch plant, rhaid mynnu eich bod yn cyfathrebu unrhyw newid yn y drefn o gasglu yn ysgrifenedig i'r swyddfa cyn 2.30yp. Mewn argyfwng byr rybudd bydd angen cysylltu â'r swyddfa er mwyn iddynt oruchwylio'n ofalus unrhyw drefniant newydd.

## Presenoldeb

### Prydlondeb a phresenoldeb

Dylech sicrhau fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gyson uchel. Mae'r Ddeddf Addysg yn nodi bod yn rhaid i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw absenoldeb, gan roi rheswm dros yr absenoldeb, gan gynnwys ymweliadau â'r meddyg neu'r deintydd. Os oes rhaid i chi gymryd gwyliau yn ystod y flwyddyn ysgol rhaid hysbysu'r ysgol ymlaen llaw. Ni all yr ysgol awdurdodi unrhyw absenoldebau a gymerir oherwydd gwyliau teulu. Mae'r Swyddog Lles Addysg yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i fonitro'r cofrestrau.

Os oes angen gollwng neu gasglu disgyblion yn ystod y diwrnod (9yb-3.30yp), rhaid cysylltu gyda'r dderbynfa.

## Iechyd, Lles a Diogelwch

Mae nyrs yr ysgol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac yn gwneud arolygiadau golwg, clyw a deintyddol yn ystod amser y plentyn yn yr ysgol. Caiff rieni ei hysbysu os oes angen triniaeth bellach.

### Salwch a damweiniau

Os yw eich plentyn yn sâl yn ystod y diwrnod ysgol, fe fyddwn yn cysylltu â chi er mwyn eich galluogi i'w gasglu. Os na fyddwn yn medru cysylltu â rhieni, yna fe fyddwn yn cysylltu â'r rhifau cyswllt a ddarparwyd gennych chi. Deallwch, felly, pam y mae'n hanfodol bwysig i chi ddiweddaru'r rhifau cyswllt yma os oes unrhyw newid.

Cofnodir unrhyw ddamweiniau yn yr ysgol ac fe fydd rhieni yn derbyn nodyn gyda manylion y digwyddiad. Hysbysir rhieni am bob bwmp pen.

Peidiwch ag anfon disgyblion i'r ysgol os ydynt yn dioddef o salwch. Gellir cael gafael ar restr gynhwysfawr o afiechydon heintus oddi wrth eich meddyg (a fydd yn medru eich cynghori os oes angen hysbysu'r Ysgol).

Os bydd disgybl wedi dioddef o ddolur rhydd neu yn chwydu, rhaid iddynt aros o'r ysgol am 48 awr er mwyn sicrhau nad yw'r salwch yn lledu yn hawdd ar draws yr ysgol.

### Moddion

Gallwn ddarparu moddion presgriptiwn yn unig. Bydd angen llenwi ffurflen caniatâd sydd ar gael o dderbynfa'r ysgol.

### Alergedd

Os ydy eich plentyn yn dioddef o unrhyw alergedd sy'n gofyn am sylw meddygol, yna cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â phosib. Gweithiwn yn agos gyda thîm meddygol yr Awdurdod Lleol ac mae Nyrs yr ysgol ar gael i ddarparu hyfforddiant a chyngor i ni ar ymdrin ag achosion brys. Mae gennym ddisgyblion yn yr ysgol sydd ag alergedd difrifol i gnau. **Ni chaniateir unrhyw fath o gnau yn yr ysgol.**

### Llau Pen

A wnewch chi ein hysbysu o unrhyw achos fel ein bod yn medru rhybuddio rhieni i archwilio gwallt eu plant.

Os daw eich plentyn i'r ysgol gyda llau pen, fe fyddwn yn cysylltu â chi i'w g/chasglu er mwyn ei d/thrin. Fe fydd eich fferyllydd yn medru darparu triniaeth addas. Gofynnwn yn garedig i chi ddilyn y cyfarwyddiadau yn ofalus er mwyn sicrhau nad ydy'r pla yn dychwelyd.

### Asthma

Mae angen i blant sy'n dioddef o asthma fedru defnyddio pwmp heb gymorth oedolyn.Dylid sicrhau bod enw eich plentyn wedi ei labelu'n glir ar bob pwmp. Cedwir y pympiau yng nghwpwrdd Cymorth Cyntaf y dosbarth, ac maent ar gael i blant ar bob adeg. Dylid anfon cyfarwyddiadau neu unrhyw drefniadau arbennig i'r ysgol.

### Diogelwch haul

Gofynnwn yn garedig i chi ddarparu het yn ystod cyfnodau heulog. Cofiwch ddefnyddio eli haul ffactor uchel yn ystod misoedd yr haf.

## Cinio Ysgol

Mae prydau ysgol am ddim i bob disgybl o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6. Gallwch weld bwydlen gyfredol Ysgolion Cynradd a dewis cinio eich plentyn trwy fewngofnodi i'ch cyfrif Group Ed. Gofynnwn yn garedig i chi archebu dewis cinio eich plentyn cyn 8yb.

**Byrbryd**
Rydym yn annog disgyblion Meithrin i flwyddyn 2 i flasu byrbrydau. Maent yn aml yn gysylltiedig gyda gwersi a themâu'r dosbarth. Bydd tal o £1 yr wythnos am yr hanner tymor yn ymddangos ar eich cyfrif Group Ed. Mae plant y dosbarthiadau yma yn derbyn llaeth am ddim bob dydd.

Mae croeso i chi anfon byrbrydau iach gyda'ch plentyn. Dydyn ni ddim yn caniatáu creision, cnau, diodydd pefriog na losin ayyb.





## Y Gymraeg

Mae Ysgol Gymraeg Treganna yn ysgol gyfrwng Gymraeg.

Addysgir pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg, caiff Saesneg ei ddysgu fel pwnc o Flwyddyn 3.

Ni addysgir Saesneg yn y cyfnod sylfaen. Anogir pob disgybl i siarad Cymraeg bob amser. Mae'r ysgol yn defnyddio'r Siarter Iaith i annog disgyblion i gymdeithasu yn Gymraeg yn ystod oriau ysgol a thu allan i'r ysgol.

Mae'n bwysig bod rhieni disgyblion yn yr ysgol yn cefnogi eu plant gyda'r Gymraeg ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu, gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg a defnyddio apiau Cymraeg. Anfonir gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg i oedolion yn rheolaidd trwy e-bost / taflenni.

**Siarter Iaith**
Mae'r ysgol wedi derbyn Gwobr Aur Siarter Iaith sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r plant yn allweddol wrth arwain a gyrru'r fenter hon yn ei blaen. Mae ein pwyllgor disgyblion "Y Criw Cymraeg" yn gosod targedau bob tymor yn gysylltiedig â hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan.





## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae'r ysgol yn cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar draws y cwricwlwm.

Mae perthnasoedd iach yn elfen hanfodol o gynnal iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol da. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn archwilio'r gwahanol ffyrdd y mae ystod eang ac amrywiol o ddylanwadau yn effeithio ar y gallu i ffurfio a chynnal perthnasoedd cadarnhaol. Gallai hyn gynnwys perthnasoedd teuluol, cyfeillgarwch, perthnasoedd proffesiynol a pherthnasoedd rhywiol.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfen bwysig o greu ymagwedd ysgol gyfan i gefnogi iechyd a lles corfforol, meddyliol ac emosiynol cyffredinol.

## Cyd-addoli a gwasanaethau

Cynhelir sesiynau addoli yn rheolaidd yn ystod yr wythnos, mae'r rhain yn rhoi cyfle i drafod materion cyfoes, materion sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan ac rydym yn ymdrin â phynciau megis lles, bwlio, perthnasoedd a phobl enwog. Cysylltwch â'r Pennaeth am fwy o wybodaeth.

## Tai Bach

Mae gan yr ysgol y cyfleusterau tai bach gofynnol ar gyfer disgyblion mewn ysgol o'i maint ac mae'r rhain yn cael eu glanhau a'u gwirio yn rheolaidd yn ystod y dydd.

Mae gan yr ysgol bolisi Toiledau sy'n cydymffurfio â'r gofynion statudol.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn flaenoriaeth i'n hysgol. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn gynhwysol ac yn cynnig cyfle cyfartal i bawb. Bydd gan lawer o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn eu hamser yn yr ysgol. Mae gan rai disgyblion anghenion penodol, anabledd corfforol neu maent yn fwy abl.

Ein nod yw sicrhau bod anghenion pob disgybl yn cael eu diwallu trwy gynllunio'n ofalus a defnyddio amrywiaeth o strategaethau gweledol a chinesthetig sy'n galluogi pob dysgwr i gyrraedd ei botensial.

Mae'r Ddeddf ADY yn flaenoriaeth ysgol ac rydym yn gweithio'n effeithiol gyda'n clwstwr i sicrhau bod strategaethau cadarn ar waith.

Mererid Lewis, Cydlynydd ADY a Chynhwysiant Ysgol Treganna sy'n cydlynu'r ddarpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn yr ysgol. Mae'r tîm yn gyfrifol am:

- sicrhau'r ystod a'r lefel gywir o ymyriadau i ddiwallu'r anghenion amrywiol a geir i sicrhau cyrhaeddiad a lles disgyblion.
- sicrhau bod gan athrawon a chynorthwywyr addysgu y sgiliau a'r hyder i ddiwallu anghenion pob dysgwr.
- mabwysiadu dulliau gweithredu unigol i sicrhau'r prosesau dysgu gorau posibl i unigolion.

Sharon Krause yw'r llywodraethwr a enwir gyda chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yr ysgol sy'n gyfrifol am leoli plant ar y camau a nodir yng Nghôd Ymarfer ADY Cymru ac am gefnogi, monitro ac adolygu.

**Adrodd yn ôl i rieni**
Trefnir adolygiadau yn ystod y flwyddyn, fel arfer ar ddiwedd pob tymor.Yn ystod yr ymgynghoriad, trafodir cynnydd y plentyn gan adolygu'r targedau a luniwyd. Bydd cyfle hefyd i drafod adborth y plentyn a barn y rhieni am y cynnydd ac yna'r camau nesaf ymlaen.

**Gwersi Offerynnau Cerdd**

Rydym yn cynnig gwersi chwythbrennau, pres, ffidil, soddgrwth, telyn, gitâr ac allweddellau/piano. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Trosglwyddo i Addysg Uwchradd**

Mae disgyblion Ysgol Gymraeg Treganna yn trosglwyddo i Ysgol Gyfun Plasmawr .

Darperir amrywiaeth o weithgareddau trosglwyddo gan yr ysgol i sicrhau trosglwyddiad esmwyth o un ysgol i'r llall. Mae'r pennaeth ac aelodau staff yn cwrdd yn rheolaidd â'r ysgol uwchradd i drafod datblygiadau cwricwlwm a phynciau eraill a fydd yn cynorthwyo gyda phontio llyfn i'n holl ddisgyblion. Ym Mlwyddyn 6 mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn anfon pamffled manwl at rieni sy'n rhoi'r holl wybodaeth berthnasol am y weithdrefn ar gyfer ceisiadau a derbyniadau ysgolion uwchradd.

**Cyfle Cyfartal**

**Cynllun Mynediad i'r Ysgol**

Darperir dysgu o ansawdd da trwy addysgu a chefnogaeth o ansawdd da gan bawb yn yr ysgol. Mae ethos o ddeall anableddau disgyblion. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu ac yn barod i addasu cyfleusterau ac adnoddau ar gyfer anghenion disgyblion ag anableddau. Mae materion hygyrchedd yn cael eu hadolygu'n gyson a'u trafod gyda gwahanol asiantaethau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc anabl o fewn Fframwaith y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae gan yr ysgol Bolisi a Chynllun Hygyrchedd.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Yn unol â pholisi'r Sir, rydym wedi creu cynllun Cydraddoldeb Strategol er mwyn gwarantu pob agwedd ar gydraddoldeb yn yr ysgol.

Rydym yn hyrwyddo dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau ac rydym yn sicrhau bod ethos yr ysgol yn rhoi'r amgylchedd iawn i blant dyfu i fyny mewn cymdeithas amlddiwylliannol. Os hoffech gael copi o'r polisi hwn, cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Rhifau ffôn argyfwng**

Rydym yn cadw cofnod o Rifau Cyswllt Brys yn swyddfa'r ysgol rhag ofn bydd damwain neu salwch.

Mae'n bwysig eich bod yn ein hysbysu am newidiadau yn eich manylion personol neu amgylchiadau. Mae'n hanfodol bod yr ysgol yn cael rhif cyswllt cywir er mwyn i ni allu cysylltu â chi mewn argyfwng.





## Addysg Gorfforol a Chwaraeon

Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyrff Ysgolion Iach a sawl menter i sicrhau ein bod yn darparu arweiniad a chyngor ar ffyrdd iach o fyw.

Rhoddir cyfle llawn a chyfartal i bob disgybl gymryd rhan yn holl weithgareddau chwaraeon.

Addysgir Addysg Gorfforol mewn gwersi gyda phwyslais cyfartal ar gymnasteg, dawns, chwaraeon ac athletau. Disgwylir i'r plant wisgo'n addas ar gyfer y gwersi hyn – crys-T, siorts ac esgidiau ymarfer ar gyfer athletau / gemau, troednoeth ar gyfer dawns a gymnasteg.

Bydd dawns a gymnasteg yn digwydd yn y neuadd; bydd athletau a gemau yn digwydd ar y cae chwarae, ar yr astro neu ar yr iard.

Mae plant blwyddyn 3 yn derbyn gwersi nofio yn ystod y flwyddyn ym Mhwll Nofio Fitzalan. Mae disgyblion blwyddyn 5 yn derbyn gwersi hwylio yn nhymor yr haf. Mae plant blwyddyn 6 yn derbyn gwersi beicio a diogelwch y ffordd.

Mae'r timau pêl-rwyd, pêl-droed a rygbi yn chwarae'n rheolaidd yn erbyn ysgolion eraill. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yng nghystadlaethau gemau'r Urdd yn flynyddol yn ogystal â chystadlaethau lleol eraill.

## Gweithgareddau allgyrsiol

Rydym yn cynnig ystod eang o weithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol.

Mae ein gweithgareddau allgyrsiol yn cynnwys pêl-rwyd, hoci, rygbi, pêl-droed, criced, nofio, rownderi, côr, clwb perfformio, clwb Hwyl a Sbri, clwb ffilm, clwb garddio, offerynnau cerdd, dawnsio gwerin, clwb Minecraft a'r Urdd.

Gofynnir i rieni sicrhau bod trefniadau yn cael eu gwneud i gasglu eu plant ar yr amser priodol. Ceir gwybodaeth ychwanegol ar wefan yr ysgol.

## Gwisg Ysgol

Mae gan yr ysgol wisg swyddogol a gobeithiwn y byddwch yn annog y plant i'w gwisgo bob dydd. Mae gosod safonau yn flaenoriaeth ac yn arwain at falchder yn yr ysgol a bydd hyn ynghyd â disgyblaeth dda yn gymorth i osod a chynnal disgwyliadau academaidd uchel.

Lliwiau'r ysgol yw glas a melyn, a gellir archebu'r wisg ysgol yn uniongyrchol o Cardiff Embroidery a YC Sports.

**Y wisg:**

| |
|---|
| Sgert neu drowsus llwyd |
| Crys polo melyn gyda logo'r ysgol |
| Crys chwys glas gyda logo'r ysgol |
| Dylai esgidiau fod yn rai tywyll. |

Oherwydd iechyd a diogelwch, ni fyddwn yn caniatáu clustdlysau (stydiau yn unig) mwclis na breichledau.

Fe'ch hysbysir ar ba ddyddiau y bydd eich plentyn yn cael gwersi Addysg Gorfforol. Ar gyfer y gwersi hyn bydd angen siorts neu drowsus ymarfer corff lliw tywyll a chrys T Addysg Gorfforol glas (Branwen), crys T Addysg Gorfforol gwyrdd (Manawydan) a chrys T Addysg Gorfforol coch (Pwyll).

A fyddech cystal â sicrhau bod enw eich plentyn ar bob dilledyn y mae'n ei wisgo i'r ysgol. Os oes angen dillad ysgol ychwanegol, mae gennym gyflenwad enfawr o ddillad ail-law wedi'u golchi mewn cyflwr gwych ar gael yn rhad ac am ddim o'r ysgol.

## Diogelwch

Mae clo diogelwch ar bob drws allanol. Mae arwyddion clir yn cyfeirio ymwelwyr at brif fynedfa'r ysgol er mwyn iddynt gael mynediad i'r adeilad.

Dylai pob ymwelydd ddod i'r dderbynfa. Ni chaniateir cŵn ar dir yr ysgol. Ni chaniateir ysmygu ar dir yr ysgol.





## Trefn Diogelwch Plant

Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelwch ac amddiffyn y plant sy'n mynychu'r ysgol.

Os oes pryderon ynglŷn ag esgeulustod neu niwed corfforol, emosiynol neu rywiol yna, o dan weithdrefnau amddiffyn plant y Sir, mae'n ddyletswydd ar staff i son am y mater wrth athro/swyddog amddiffyn plant dynodedig yr ysgol.

Gall athro diogelu plant dynodedig yr ysgol ymgynghori â chyd-weithwyr proffesiynol yn ogystal ag asiantaethau perthnasol megis y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol.

Yn dilyn y trafodaethau hyn, efallai y bydd rhaid i athro diogelu plant dynodedig yr ysgol gyfeirio'r plentyn yn swyddogol i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu a oes angen gweithredu neu beidio. Oblegid natur y cyhuddiadau, ni fydd bob amser yn briodol i drafod materion gyda'r rhieni cyn cyfeirio'r plentyn. Y gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu sy'n gyfrifol am ymchwilio i gyhuddiadau.

**Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant**
Mrs Catrin Evans

**Swyddog Dynodedig Amddiffyn Plant**
Mr Gareth Evans

**Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant**
Mrs Sharon Krause

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**
Manon George

## Rhifau Awdurdod Allweddol

**Hwb Cymorth Amlasiantaeth Caerdydd (MASH)**
029 2053 6490

**Disgyblion gyda Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol dynodedig**
029 20 563400 Heddlu 999 (argyfwng) 029 20222 111

**Tîm Diogelwch Addysg**
029 223 30876,029 223 30877, 029 223 30878
SLLSSafeguardingTeamInformation@caerdydd.gov.uk

**Finn Madell, Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol (PDALI)**
02922 330868

**Cydlynydd Atal**
Carl Davies Ffôn: 02920 873281 Ffôn:
E-bost: carl.davies@caerdydd.gov.uk

**Jennifer Lenczner Swyddog Atal Addysg Awdurdod Lleol Caerdydd**
Ffôn: 02920 873281 Ffôn: 07811 980031
E-bost: Jennifer.Lenczner@caerdydd.gov.uk

## Cyswllt Cartref ac Ysgol

Mae'r ysgol yn cyfathrebu â rhieni a gwarcheidwaid gan ddefnyddio system neges destun ac e-bost. Mae ein cyfrif Trydar/X yn fodd effeithiol i weld lluniau o ddosbarth eich plentyn, ac mae hwn yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.

Anfonir gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau pwysig i rieni a gwarcheidwaid bob hanner tymor ac mae ein calendr ar-lein yn cael ei ddiweddaru'n wythnosol ar wefan yr ysgol.

Rydym yn anfon cylchlythyr at ein rhieni bob dydd Gwener. Bydd y cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu drwy'r ap Group Ed. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys newyddion yr wythnos a gwybodaeth am yr wythnos ganlynol. Rydym hefyd yn uwchlwytho pob cylchlythyr ar wefan yr ysgol.

Rydym yn anfon y cyswllt wythnosol i'n rhieni bob dydd Mawrth. Bydd y cyswllt wythnosol yn cael ei gyflwyno trwy'r ap Group Ed. Mae'r cyswllt wythnosol yn cynnwys yr holl wybodaeth a llythyrau sy'n berthnasol i ddosbarth eich plentyn.

Rydym hefyd yn uwchlwytho pob cyswllt wythnosol ar wefan yr ysgol.

Mae gan yr ysgol Gymdeithas Rhieni ac Athrawon brysur a chefnogol iawn, sy'n trefnu gweithgareddau amrywiol ar gyfer rhieni a phlant yr ysgol. Byddwch yn cael gwybod am y cyfarfodydd trwy lythyr, e-bost neu negeseuon testun.

Cofiwch y gall unrhyw riant sydd am drafod unrhyw agwedd o addysg eu plant drefnu i wneud hynny drwy gysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i weld y Pennaeth.

## Polisi Codi Tâl

Mae'n ofynnol i Gyrff Llywodraethol Ysgolion gael polisi ynglyn â chodi tâl am weithgareddau ysgolion. Amcanion y polisi yw:

- i gadw'r hawl i addysg rad
- i sicrhau bod gweithgareddau'r ysgol ar gael i'r holl ddisgyblion, er gwaethaf gallu neu barodrwydd rhieni i gyfrannu at y gost. Pwysleisir nad oes gofyn statudol i godi tâl am addysg neu weithgareddau perthnasol, ond fe roddir hawl i Awdurdodau Addysg a Chyrff Llywodraethol i godi tâl am rai gweithgareddau pan fo angen.
- Cadarnhau hawliau Awdurdodau ac Ysgolion i wahodd cyfraniadau gwirfoddol er budd yr ysgol neu gefnogi unrhyw weithgaredd a drefnir – bod hynny yn ystod neu wedi oriau ysgol.

### Arian

Dylid anfon arian i dalu am brydau ysgol, ymweliadau addysgol ac ati i'r ysgol drwy'r ap **Group Ed**.

## Ymweliadau

Mae ymweliadau ysgol yn cyfoethogi addysg y plant ac mae'r cyfleoedd i ymweld â mannau y tu allan i'r ysgol yn codi'n rheolaidd.

Yn yr achosion hyn, mae angen cludiant ac ar brydiau mae angen tâl mynediad i wahanol leoedd. Rydym yn ymwybodol o'r baich ariannol sydd ar rieni ac mae'r ysgol yn sicrhau na fydd cost unrhyw ymweliad yn afresymol. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw riant i gyfrannu tuag at y gweithgareddau hyn. Pe bai rhieni yn dewis peidio cyfrannu, rhoddir hawl i'r Pennaeth ddileu gweithgaredd os yw'r gost yn ei barn hi yn afresymol.

**Ymweliadau Preswyl**

Pan fo gweithgaredd ysgol yn hawlio fod plentyn yn treulio un noson neu fwy oddi cartref mae gan yr ysgol hawl i godi tâl am fwyd a llety.

Fel gyda'r gweithgareddau eraill, os gwêl yr ysgol fod cost cynnal y cyrsiau hyn yn ormod o faich ar gronfa'r ysgol rhoddir yr hawl i'r Pennaeth ddileu'r cwrs.

**Clwb Brecwast a chlwb ar ôl ysgol**

**Clwb Brecwast**

Mae'r ysgol yn cynnig brecwast yn rhad ac am ddim i holl ddisgyblion yr ysgol gan gynnwys y Dosbarth Meithrin bore. Ariannir y Clwb brecwast gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Clwb Brecwast yn agor am **8.10yb** ac yn derbyn plant hyd nes **8.20yb**. Mae disgyblion yn cael eu goruchwylio hyd nes bod yr ysgol yn dechrau am **9.00yb**. Ar ôl cael eu brecwast bydd cyfle iddynt chwarae gemau/gemau bwrdd ac i arlunio.Am fwy o wybdoaeth cysylltwch gyda swyddfa'r ysgol.

**Clwb ar ôl ysgol Clwb Cymer Ofal**

Mae Cymer Ofal yn darparu gofal plant ar ôl ysgol o ddiwedd y diwrnod ysgol tan 6.00yp, dydd Llun i ddydd Gwener, ar gyfer disgyblion y dosbarth Derbyn hyd at Flwyddyn 6. Mae clwb Cymer Ofal wedi ei leoli yn Ysgol Treganna. Byddwn hefyd yn darparu gofal i blant y dosbarth Meithrin o fis Tachwedd 2024.

Ar ddiwedd y diwrnod ysgol, mae'r plant yn cwrdd yn neuadd yr ysgol, lle'r ydym yn cymryd cofrestr ddyddiol, darparu byrbryd a chynnig amrywiaeth o weithgareddau i'r plant ddewis nes iddynt gael eu casglu gan eu rhiant/gwarcheidwad. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer yr amrediad o oedrannau a chyfnodau o ddatblygiad, a chyfleoedd ar gyfer chwarae creadigol a heriol, yn ogystal a gweithgareddau hamddenol. Rydym yn cynllunio'r rhain gyda'r plant er mwyn sicrhau mwynhad a datblygiad pellach o'u sgiliau cymdeithasol ac ymddygiad.

**Am fwy o wybodaeth**

clwb@cymerofal.co.uk
Clwb Treganna: 07943 991007 |

**Cwynion**

Mae'r Awdurdod Addysg wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae cyrff llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig.

Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol. Darperir copi i unrhyw riant sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn. Mae'r drefn gwyno ar gael ar wefan yr ysgol.

Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth.

Dylid cysylltu â'r ysgol i wneud apwyntiad i drafod unrhyw gŵyn gyda'r Pennaeth neu os am weld unrhyw ddogfennau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm.



ysgoltreganna@caerdydd.gov.uk
@YsgolTreganna

## Ysgol Treganna

Heol Sanatorium
Treganna
Caerdydd
CF11 8DG

Dylunio: elfen.co.uk

